**FIN(4)-ESF 15**

**Inquiry into Effectiveness of structural funds in Wales**

**Response from Prifysgol Aberystwyth**

**Ymateb Prifysgol Aberystwyth i'r Adolygiad o Weithgareddau'r Gronfa Gydgyfeiriant – Cais am dystiolaeth.**

1. *I ba raddau rydych yn ystyried bod y Rhaglenni Cydgyfeiriant a'r Rhaglenni Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol yng Nghymru ar gyfer y cyfnod rhwng 2007 a 2013 wedi cyflawni – neu yn cyflawni – yr amcanion ar eu cyfer?*

   Mae Prifysgol Aberystwyth (PA) wedi elwa ar gydweithredu ar brosiectau Ewropeaidd dros y 25 mlynedd diwethaf a, thrwy wneud hynny, mae wedi cyfrannu at adfywiad economaidd a chymdeithasol y rhanbarth. Mae'n sylweddoli ei bod yn bwysig defnyddio'r sector Addysg Uwch, law yn llaw â Chronfeydd Strwythurol Ewrop, i helpu i ddatblygu busnesau uwch-dechnoleg blaengar a chynaliadwy i gyfrannu at adfywiad economaidd yn gyffredinol ac i fynd i'r afael yn arbennig â'r anfanteision sy'n deillio o'r sefyllfa economaidd bresennol a'r costau ynni cynyddol, ynghyd â hybu diwydiannau gwell, glanach a mwy effeithlon.

   I'r perwyl hwn, mae PA wedi canolbwyntio ar:

   - Fasnacheiddio a manteisio ar ymchwil a fydd yn cyfrannu at ddatblygu economaidd
   - Cynorthwyo buddiolwyr mewn ardaloedd Cydgyfeiriant i feithrin sgiliau lefel uwch drwy gyfleoedd hyfforddi pwrpasol
   - Datblygu a chyflwyno meddalwedd modelu, dadansoddi ac efelychu blaengar i gefnogi arloesedd ac i gwtogi ar yr amser cyn cyflwyno adnodd i'r farchnad
   - Cefnogi'r gwaith o ddatblygu technolegau 'gwyrdd' newydd a'r diwydiannau creadigol.

   Un enghraifft o'r gwaith uchod yw ein prosiect **BEACON** (Canolfan Rhagoriaeth Bioburo), sy'n defnyddio arian Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF). Mae'r prosiect hwn yn troi deunydd crai o blanhigion yn fiodanwydd ac yn fiogemegau a bydd yn galluogi 202 o gwmnïau i ddefnyddio cynhyrchion 'gwyrdd' sy'n dod o blanhigion yn hytrach nag olew. Rydym yn cyflawni'r prosiect mewn partneriaeth â phrifysgolion Bangor ac Abertawe (gydag Aberystwyth yn arwain). Bu modd datblygu prosiect llwyddiannus drwy gyfuno arbenigedd y partneriaid, oherwydd ni fyddai wedi bod yn bosib i un brifysgol ei gyflawni gyda'i hadnoddau a'i harbenigedd presennol. Mae hwn yn brosiect gwerth dros £20m a daeth y cysyniad i'r amlwg drwy'r cyfuniad unigryw o arbenigeddau o safon byd sydd ar gael yn Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS) PA, sy'n

cwmpasu bridio planhigion, geneteg, agronomeg, bioleg celloedd, biocemeg, metaboledd carbohydrad, ensymoleg a microbioleg.

Yn yr un modd, bu i'r prosiect **WISE** (Sefydliad Amgylcheddau Cynaliadwy Cymru), a ddatblygwyd drwy gyllid Amcan 1 yn wreiddiol, osod y llwyfan ar gyfer datblygu WISE2 o dan y Rhaglen Gydgyfeiriant. Mae'n gyfle i fusnesau fanteisio ar arbenigedd ym maes ynni ac adnoddau amgylcheddol eraill yn PA a'r sefydliadau sy'n bartneriaid iddi. Cafodd prosiect WISE ei roi ar y rhestr fer i ennill Gwobr Effaith PraxisUnico. Roedd y dystiolaeth yn cynnwys y manylion isod:

"Mae Rhwydwaith WISE eisoes wedi dylanwadu ar bron i 500 o gwmnïau ar draws rhanbarthau cymwys Cymru. O blith y rhain, mae 119 wedi cymryd rhan mewn gwaith Ymchwil a Datblygu ar y cyd ag un neu ragor o'r Prifysgolion sy'n bartneriaid, ac mae 116 achos arall o drosglwyddo gwybodaeth amgylcheddol drwy weithdai hyfforddi a thrwy ddefnyddio cyfleusterau prifysgol yn sgil y prosiect.

Crëwyd bron i 80 o swyddi newydd yn y cwmnïoedd a gefnogwyd gennym, a chafwyd cynnydd o £4.7m yn eu trosiant ers cychwyn Rhwydwaith WISE. Cofrestrwyd patentau a nodau masnach newydd o ganlyniad i'r prosiect, a byddant yn cael effaith bellach pan fydd cynnyrch a gwasanaethau newydd sy'n seiliedig arnynt yn cael eu lansio.

Gall cwmnïoedd osod staff yng nghyfleusterau'r Brifysgol, fel labordai a thai gwydr, a darparwyd cyfanswm o 2130m2 o ofod ar gyfer technoleg, arloesi, Ymchwil a Datblygu, a deori i gwmnïoedd yn sgil y prosiect. O ganlyniad i Rwydwaith WISE, llwyddodd bron i 500 o gwmnïoedd i gynyddu eu llwyddiant ariannol ac i leihau'u heffaith ar yr amgylchedd."

Mae'r hinsawdd economaidd bresennol, nad yw'r sector Addysg Uwch wedi'i diogelu rhagddi, wedi creu cyd-destun heriol iawn i bwyso a mesur y cwestiwn hwn. Yn erbyn y cefndir economaidd a chymdeithasol tymhestlog hwn, mae rhaglenni'r cronfeydd strwythurol hyd yn oed yn bwysicach na'r disgwyl. Mae'r tueddiadau o ran cyflogaeth a'r farchnad lafur yn parhau ar i lawr. Mae grwpiau penodol o dan anfantais arbennig – pobl ifanc sydd am gael mynediad i'r farchnad lafur, y rheini sydd wedi'u lleoli ymhellach oddi wrth wasanaethau, a busnesau bach nad oes ganddyn nhw gyfalaf nac adnoddau eraill i'w defnyddio fel clustog economaidd i wrthsefyll yr anawsterau economaidd presennol. Mae'r camau i gwtogi'r sector cyhoeddus, y mae economi'r rhanbarth yn dibynnu'n helaeth arno, yn arwain at golli cyfleoedd gwaith a cholli hyder, yn ogystal â gostwng safon gwasanaethau cyhoeddus; ac mae hyn oll yn ychwanegu at yr anfantais sy'n bodoli eisoes.

**Tabl 1. Ymglymiad Prifysgol Aberystwyth â'r cronfeydd strwythurol ar hyn o bryd**

| Prosiect | Gwerth y prosiect (€)m | Prosiect | Gwerth y prosiect (€)m |
|---|---|---|---|
| KESS | 33.00 | LCRI | 7.00 |
| ATM | 21.67 | Technocamps | 5.98 |
| BEACON* | 20.09 | SEREN | 10.00 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| HPC Cymru | 40.00 | Susfish | 2.90 |
| SAW | 13.40 | SEACAMS | 23.60 |
| ASTUTE | 26.85 | SMARTCoasts* | 4.35 |
| SLNIW | 1.70 | BOBL* | 2.00 |
| PROSoil* | 2.00 | CLNIW | 1.80 |
| WISE 2* | 14.8 | | |
| **Prifysgol Aberystwyth sy'n arwain y prosiect* | | | |
| **CYFANSWM cronfeydd arian PA** | | **£23.12m** | |
| **Cyfanswm gwerth y prosiectau i'r rhanbarth** | | **€251.14m** | |

2. *A gredwch fod y prosiectau amrywiol sy'n cael eu hariannu drwy gronfeydd strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru yn rhoi gwerth am arian?*

Mae'r arbenigedd a'r strwythurau gofynnol ar waith yn PA i ddefnyddio ymchwil flaengar a gwybodaeth arbenigol er budd economi'r rhanbarth. Ar ôl datblygu'r systemau trosglwyddo gwybodaeth hyn, mae'n dod yn fwyfwy darbodus defnyddio'r adnoddau o fewn PA i hybu a chefnogi datblygiad economaidd ar draws y rhanbarth.

Mae'r pwyslais cadarn ar weithio mewn partneriaeth o fewn y rhaglen Gydgyfeiriant wedi creu gwerth ychwanegol, gan fod modd i'r prosiectau fanteisio ar arbenigedd y partneriaid er budd y grŵp targed.

Esiampl: gwerth am arian prosiect BEACON:

£20.1M yw cyfanswm gwerth prosiect BEACON, gyda £10.7M ohono'n gyllid grant gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO). Felly, mae'r sefydliadau academaidd sy'n bartneriaid wedi codi swm cyfatebol o arian annibynnol sy'n gyfwerth â'r arian a ddarparwyd gan WEFO. Dyma'r metrigau sy'n gysylltiedig â'r cyllid hwnnw:


| **ALLBYNNAU** | **CYFANSWM** |
|---|---|
| Mentrau a gafodd eu cynorthwyo | 202 |
| Ymchwil a Datblygu ar y cyd | 25 |
| **CANLYNIADAU** | |
| Swyddi gros a gafodd eu creu | 67 |
| Mentrau a gafodd eu creu | 3 |
| Budd o ran elw | £1,680,000 |
| Buddsoddiad a gafodd ei gymell | £3,360,000 |
| Cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau a gafodd eu cofrestru | 7 |
| Cynhyrchion, prosesau neu wasanaethau newydd neu well a gafodd eu lansio | 16 |

Yna, mae angen cymharu'r metrigau hyn â photensial y farchnad, a hynny yng Nghymru a thu hwnt o bosib.

- O dybio cost gyfartalog deunydd crai cemegol i'r busnesau hyn, gallwn bennu bod i'r farchnad botensial o tua £1.2bn (gweler y tabl isod). Amcangyfrifir disodli 30% o'r cemegau diwydiannol ar sail economaidd yn unig yn y tymor agos, a disgwylir twf yn y dyfodol. Mae hyn yn gyfwerth â marchnad hygyrch o £360m.

- O edrych ar glystyrau cadarn ychwanegol ar hyd coridor yr M62 ac yn Birmingham, sy'n hygyrch drwy gysylltiadau trafnidiaeth da, gallai'r gyfran gynyddu o 16% i 25% o farchnad y DU, gyda chyfle i gael marchnad gwerth £560m.

- Mae BEACON yn gwneud y gorau o'r tebygolrwydd y gall prifysgolion a mentrau sydd wedi'u lleoli yng Nghymru ennill segmentau o farchnad sy'n tyfu. Disgwylir i'w gwerth gyrraedd £4-12 biliwn yn y DU erbyn 2025.




Os byddwn yn llwyddo i dreiddio'n sylweddol i'r sectorau uchod, bydd yn sicrhau adenillion sylweddol ar sail buddsoddiad cychwynnol y gronfa strwythurol. Felly, mae'n dangos gwerth am arian.

3. *A oes gennych bryderon ynghylch sut y defnyddir y gronfa arian cyfatebol a dargedir? A oes gennych bryderon ynghylch defnyddio gwariant adrannol Llywodraeth Cymru fel arian cyfatebol? Pa effaith y credwch y mae toriadau yn y sector cyhoeddus wedi'i chael (ag y gallant ei chael) ar argaeledd arian cyfatebol y sector cyhoeddus?*

Nid oes gennym unrhyw bryderon ynghylch defnyddio'r Gronfa Arian Cyfatebol a Dargedir neu wariant Llywodraeth Cymru fel arian cyfatebol. Fodd bynnag, mae'n anochel y bydd toriadau yng nghyllidebau'r sector cyhoeddus yn ei gwneud yn llawer anoddach cael gafael ar arian cyfatebol.

Crëodd yr ansicrwydd ynghylch cyfleoedd am arian cyfatebol yn nyddiau cynnar y rhaglen hinsawdd ansicr a nerfus. Cyfrannodd hyn at oedi o ran cyflwyno'r rhaglen a diffyg ymrwymiad mewn rhai cylchoedd. Codwyd cwestiynau parhaus hefyd am y pedair cyfradd o ran gorbenion ar gyfer y sector Addysg Uwch yng Nghronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF). Mae hyn yn parhau i beri anawsterau mewn rhai achosion ac mae wedi peri i rai fagu agwedd negyddol ynghylch bod yn rhan o'r rhaglen. Byddem yn rhoi croeso mawr i gytundeb ysgrifenedig clir gyda WEFO o ran gorbenion cyn cychwyn y rhaglen nesaf.

4. *Pa mor effeithiol y bu Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru o ran monitro a gwerthuso effaith prosiectau?*

Mae'r trosiant uchel ymhlith staff WEFO wedi creu anawsterau o ran meithrin perthynas waith effeithiol gyda swyddogion ac o ran adeiladu corff o wybodaeth a dealltwriaeth am y prosiectau sy'n cael eu hariannu.

Mae'r camau i gyflwyno archwiliadau bob chwe mis ar gyfer prosiectau INTERREG, yn hytrach nag archwiliadau blynyddol, hefyd wedi ychwanegu'n sylweddol at y baich gweinyddol. Nid yw'n ymddangos bod i'r newid unrhyw fantais amlwg ac mae ymdeimlad cryf nad yw'n gymesur â'r dasg.

BEACON
Mae tîm BEACON yn cyfarfod â staff WEFO unwaith bob chwarter i adolygu'r cynnydd o safbwynt ariannol ac o safbwynt effaith y prosiect. Mae hyn yn gyfle i dîm rheoli BEACON roi gwybod i'r swyddogion am effaith y prosiect, yn ychwanegol at yr adnodd monitro ar-lein sydd ar gael ar wefan WEFO. Mae'r anhawster o ran arddangos effaith prosiect yn aml yn gysylltiedig â'r ffordd gyfyngedig y mae WEFO yn nodi allbynnau a chanlyniadau.

Ar wahân i'r materion a nodir uchod, mae gan PA yr adnoddau a'r arbenigedd priodol, nid yn unig i gyflawni'r holl ofynion monitro a gwerthuso'n gymwys, ond hefyd i roi 'arferion gorau' ar waith yn y meysydd hyn. Mae gan PA berthynas waith dda iawn gyda WEFO i sicrhau ei bod yn cydymffurfio'n llwyr.

5. *A oes gennych bryderon ynghylch y gallu i gynnal y gweithgareddau a'r gwaith a gyflawnir drwy brosiectau a ariennir yn ystod cylch cyfredol y cronfeydd strwythurol y tu hwnt i 2013?*

Mae cynaliadwyedd wedi bod yn rhan annatod o'r gwaith o gynllunio a datblygu pob prosiect a gweithgaredd, wedi'i ategu gan y berthynas waith agos sy'n cael ei meithrin

rhwng y partneriaid. Fodd bynnag, mae dirywiad annisgwyl a chyflym yr economïau Cenedlaethol ac Ewropeaidd wedi creu heriau ychwanegol o ran cynaliadwyedd. Mae hwn yn faes lle gall PA wneud cyfraniad positif iawn drwy gynnal a chynorthwyo'i rhwydwaith helaeth o bartneriaid.

6. *Beth yw eich profiad chi o gael gafael ar Gyllid Strwythurol Ewropeaidd?*

Ar y cyfan, bu profiad PA o gael gafael ar Gronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn bositif. Fodd bynnag, yn achlysurol, mae 'costau cyfle', o ran yr ymrwymiad amser ac adnoddau sy'n ofynnol i baratoi cynigion heb ganlyniadau y gellir eu rhagweld, yn arwain at ddiffyg brwdfrydedd ac ymrwymiad ymhlith rhai cydweithwyr, yn enwedig os yw eu cynigion blaenorol wedi cael ymateb siomedig. Yn ogystal, mae dryswch o ran materion 'cymorth gwladol', yn enwedig gyda phartneriaid, wedi peri oedi mawr a datgymalu rhai partneriaethau posib. Ni all sefydliadau Addysg Uwch ond cadw trefn ar eu cymorth gwladol eu hunain – ni ellir disgwyl iddynt orfodi trefniadau cymorth gwladol y sefydliadau sy'n bartneriaid iddynt. Rydym yn awgrymu bod WEFO'n ysgwyddo cyfrifoldeb dros y mater hwn (e.e. defnyddio esemptiadau bloc cyffredinol).

7. *A yw'r sector preifat yng Nghymru wedi ymgysylltu'n ddigonol â'r broses o gael gafael ar Gyllid Strwythurol Ewropeaidd??*

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi'i lleoli mewn ardal wledig iawn, lle mae Busnesau Bach a Chanolig (BBaCh) yn nodweddu economi'r rhanbarth. Mae hyn yn gosod heriau penodol i'r sector preifat o ran ymgysylltu â Chronfeydd Strwythurol Ewrop. Fodd bynnag, drwy feithrin perthynas waith agos rhwng PA a nifer o fusnesau lleol a rhanbarthol, bu modd annog cyfradd gymharol uchel o ymgysylltu. Mae'r 'costau' sydd ynghlwm wrth gyfle, a nodir uchod, o reidrwydd yn rhwystro BBaCh bach iawn rhag ymgysylltu â'r broses, oherwydd nad oes ganddynt yr amser a'r adnoddau gofynnol i'w buddsoddi mewn cyfle sy'n ymddangos yn ansicr. Gall y gofynion o ran cymorth gwladol sydd ynghlwm wrth brosiectau Ymchwil a Datblygu cydweithredol, yn enwedig y rheini sy'n ymwneud â pherchenogaeth Eiddo Deallusol a rhannu costau, fod yn anodd i rai BBaCh, ac mae gofyn i staff prosiect ddefnyddio dull medrus i drin a thrafod y materion hyn. Mae hyn yn galw am lawer o adnoddau, ond mae'n hanfodol i sicrhau nad yw materion cydymffurfio â gofynion cymorth gwladol yn rhwystro'r sector preifat rhag ymgysylltu â'r prosiectau. Serch hynny, mewn hinsawdd economaidd sy'n anodd iawn ar hyn o bryd, mae'r cronfeydd strwythurol yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig, yn enwedig i fentrau bach, oherwydd bydd eu goroesiad a'u heffeithlonrwydd yn rhan bwysig o'r camau i adfer yr economi yn y dyfodol.

8. *Yn 2009, llwyddodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i negodi cynnydd yng nghyfraddau ymyrryd y rhaglenni gyda'r Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer dwy raglen cydgyfeiriant Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Chronfa Gymdeithasol Ewrop. Yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2010, nododd y Pwyllgor Menter a Dysgu fod Asiantaeth Datblygu Rhanbarthol y De-orllewin wedi negodi cyfraddau ymyrryd uwch gyda'r*

*Comisiwn Ewropeaidd. A yw Cymru'n gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o'r cyfraddau ymyrryd uwch hyn?*

Parodd y gyfradd ymyrryd uwch a negodwyd gan WEFO yn 2009 i Gronfeydd Cydgyfeiriant yr ERDF a'r ESF fod yn fwy deniadol i PA ac, yn sgil hynny, magodd y sefydliad agwedd fwy cadarnhaol tuag at y Cronfeydd Strwythurol. Nid oeddem yn sylweddoli bod Asiantaeth Datblygu Rhanbarthol y De-orllewin wedi negodi cyfraddau ymyrryd uwch gyda'r Comisiwn a byddem yn croesawu unrhyw gyfle i drafod y mater hwn ymhellach gyda WEFO, fel y bo'n briodol.